HSC(6)-20-23 PTN 5

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
—
Health and Social Care Committee
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
—
Children, Young People and Education Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.cymru
senedd.wales/SeneddHealth
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Lynne Neagle AS
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant

19 Ionawr 2023

Annwyl Lynne

Ystyried gwasanaeth cwnsela cenedlaethol i blant

Fel y byddwch yn cytuno, dylai'r broses o feithrin iechyd meddwl a llesiant cadarnhaol ddechrau'n gynnar ym mywyd plentyn, gan fod perthnasoedd a chysylltiadau cadarnhaol ac iach yn hanfodol i sicrhau eu bod yn datblygu'n iach a'u hiechyd meddwl yn y dyfodol. Am yr un rheswm, pan fo trawma yn digwydd ym mlynyddoedd cynnar plentyn, mae'n hanfodol bod y gwasanaethau a'r mecanweithiau cywir ar waith, a'u bod yn gweithio gyda'i gilydd mewn ffordd gydgysylltiedig i gefnogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau cwnsela ysgolion, dulliau ysgol gyfan a theuluoedd cyfan, a Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS), yn ogystal â gweithredu a gwreiddio'r fframwaith NYTH.

Fel rhan o'r gwaith o sicrhau bod y gwasanaethau ataliol ac ymyrryd cywir ar waith i gefnogi plant ledled Cymru, byddem yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau a roddwyd unrhyw ystyriaeth i sefydlu gwasanaeth cwnsela cenedlaethol i blant i sicrhau bod gan bob plentyn o bob oed, gan gynnwys y rhai nad ydynt eto o oedran ysgol, fynediad at ymarferwyr iechyd meddwl a llesiant.

Yn gywir

| | |
|---|---|
| Russell George AS<br>Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol | Jayne Bryant AS<br>Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg |

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.